# Dysgu Creadigol Cymru 2025-26

## Partner Dysgu Creadigol – Canllawiau Ymgeisio

Mae Dysgu Creadigol Cymru yn falch o ddatgelu pennod newydd gyffrous yn ei genhadaeth i roi creadigrwydd wrth wraidd addysg, yn dilyn cais llwyddiannus diweddar Cyngor Celfyddydau Cymru i raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru. Wedi'i hariannu trwy fuddsoddiad o £3m gan Lywodraeth Cymru, gyda chyllid cyfatebol gan gyllid y Loteri Genedlaethol a ddosberthir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, bydd y rhaglen tair blynedd gwerth £6m yn rhedeg tan fis Mawrth 2028.

Bydd y rhaglen newydd yn cefnogi ysgolion ledled Cymru i ail ddychmygu sut i fynd ati i ddylunio cwricwlwm, diwygio profiadau dysgu ag addysgu, datblygu lefelau ymgysylltu, a datgloi potensial dysgwyr trwy ddulliau beiddgar a chreadigol. Mae'r fenter newydd hon yn digwydd ar adeg hollbwysig ym myd addysg Cymru, gan gyd-fynd yn agos ag uchelgeisiau Cwricwlwm i Gymru. Bydd pwyslais clir ar lythrennedd, iechyd a lles, a gwreiddio creadigrwydd ar draws y cwricwlwm.

## Beth yw Arbrofi?

Bydd Arbrofi yn cynnig llwyfan gweithredol i athrawon gydweithio'n agos drwy ddull ymholiad, gyda chefnogaeth Partneriaid Dysgu Creadigol, i ymgorffori dulliau dysgu creadigol yn strategol ac yn ymarferol o fewn yr ystafell ddosbarth. Bydd yr ymholiadau'n canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd, iechyd a lles, a Dysgu Creadigol ar draws y cwricwlwm. Bydd pwnc yr ymholiad yn ymateb i gynllun datblygu'r ysgol, a bydd y Partner Dysgu Creadigol yn hyrwyddo egwyddorion Dysgu Creadigol. Bydd hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn caniatáu profiadau dysgu dilys sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn ysbrydoli athrawon. Drwy weithredu drwy ddull ymholiad, bydd y tîm creadigol – athrawon, dysgwyr a'r Partneriaid Dysgu Creadigol – yn meithrin perthnasoedd cydweithredol cryfach ac yn datblygu cyfathrebu effeithiol, gan gefnogi twf creadigol ac arloesol ar bob lefel o'r ysgol.

## Beth yw rôl y Partner Dysgu Creadigol?

Mae Partneriaid Dysgu Creadigol yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi ysgolion drwy ein Rhaglen Arbrofi. Maent yn cydweithio'n uniongyrchol ag athrawon i ddylunio a chynllunio arbrofion dysgu creadigol sy'n mynd i'r afael ag anghenion datblygu penodol yr ysgol. Gan ddefnyddio eu sgiliau i weithio mewn partneriaeth, cynllunio, a'u dealltwriaeth o greadigrwydd ac addysg, mae Partneriaid Dysgu Creadigol yn creu profiadau dysgu dilys, arloesol ac ystyrlon.

Yn ogystal â chynllunio, mae Partneriaid Dysgu Creadigol yn cymryd rhan weithredol yn y broses o gyflwyno gweithgareddau Dysgu Creadigol wyneb yn wyneb, gan weithio ochr yn ochr ag athrawon ac Ymarferwyr Creadigol eraill. Bydd gofyn iddynt ddefnyddio eu sgiliau myfyrio a gwerthuso i asesu effaith y gweithgareddau hyn ar y dysgwyr.

## Gofynion penodol

- Mynychu sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb dros 2 ddiwrnod gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Cyd-gynllunio ymholiad creadigol gydag athro/athrawes, ar gyfer carfan o ddysgwyr, sy'n gysylltiedig ag anghenion datblygu'r ysgol (gan gynnwys llythrennedd, lles, a Dysgu Creadigol ar draws y cwricwlwm).
- Cwblhau Ffurflen Cynnig Arbrawf gyda'r athro/athrawes.
- Cymryd rhan mewn Sgwrs Cynnig Arbrawf gydag Arweinydd Prosiect ac athro/athrawes.
- Cyflwyno gweithgareddau Dysgu Creadigol wyneb yn wyneb ar y cyd â’r athro/athrawes dosbarth ac Ymarferwyr Creadigol.
- Sicrhau bod llais y disgybl wedi'i ymgorffori mewn gweithgareddau Dysgu Creadigol.
- Cwblhau'r holiadur data gyda'r athro/athrawes dosbarth.
- Cwblhau'r naratif gwerthuso gyda'r athro/athrawes dosbarth.
- Cyd-reoli cyllideb yr ymholiad gyda'r ysgol.
- Dewis a chyflwyno Ymarferwyr Creadigol ychwanegol gyda’r athro/athrawes.

## Beth ydym ni'n chwilio amdano mewn Partner Dysgu Creadigol?

Darperir tabl manyleb person cynhwysfawr isod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ddarllen yn ofalus cyn gwneud cais, yn enwedig y meini prawf hanfodol.

## Cwestiynau Cyffredin

### Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Mae'r cyfle hwn ar agor i artistiaid a gweithwyr creadigol proffesiynol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a sydd â phrofiad o gynllunio a chyflwyno gweithgareddau Dysgu Creadigol wyneb yn wyneb mewn ysgolion. Mae croeso i unigolion sydd wedi gweithio'n flaenorol fel Asiant Creadigol, Ymarferydd Creadigol, neu Weithiwr Proffesiynol Creadigol ar y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wneud cais.

### A fydda i'n derbyn hyfforddiant i ymgymryd â'r rôl?

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i fynychu deuddydd o hyfforddiant i sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer y rôl. Bydd unigolion yn cael eu talu £300 y dydd i fynychu'r hyfforddiant. Nid yw cael eich derbyn i'r hyfforddiant yn gwarantu y byddwch yn cael eich paru ag ysgol ac yn cael cynnig gwaith (gweler y pwynt isod).

### Os caf fy ngwahodd i'r hyfforddiant, a fyddaf yn siŵr o gael ysgol i weithio gyda hi?

Mae'r broses o ddyrannu Partneriaid Dysgu Creadigol rhwng ysgolion yn gymhleth ac mae'n rhaid ystyried sawl ffactor; felly, ni allwn warantu y bydd unigolion yn derbyn ysgol i weithio â hi os ydynt yn mynychu'r hyfforddiant. Fodd bynnag, fel y soniwyd, bydd pob unigolyn yn cael ei dalu i fynychu'r hyfforddiant.

### Gyda sawl ysgol y byddaf yn gweithio?

Rydym yn rhagweld y bydd Partneriaid Dysgu Creadigol yn gweithio gyda dwy ysgol ar y mwyaf.

### Faint fydda i'n cael fy nhalu?

Cynigir £3000 ynghyd â threuliau teithio i Bartneriaid Dysgu Creadigol ar gyfer pob ysgol y maent yn gweithio gyda hi mewn blwyddyn academaidd. Mae hyn yn cyfateb i 10 diwrnod gwaith.

### Faint o Bartneriaid Dysgu Creadigol fydd yn cael eu penodi?

Rydym yn rhagweld y bydd tua 40-50 o Bartneriaid Dysgu Creadigol yn cael eu penodi.

### A fydd angen tystysgrif DBS ar gyfer y rôl?

Bydd. Bydd angen i bob Partner Dysgu Creadigol sicrhau gwiriad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a fydd yn cael ei brosesu gan Gyngor Celfyddydau Cymru os oes angen.

### O ran fy argaeledd, pa mor hyblyg sydd angen i mi fod?

Bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd ar Bartneriaid Dysgu Creadigol i ddarparu ar gyfer anghenion eu hysgol. Mae ffenestri hael ar gyfer cynllunio a chyflwyno a ddylai ddiwallu anghenion yr holl bartneriaid yn ddigonol. Rhestrir y dyddiadau allweddol isod.

### A fydda i'n cyflwyno'n uniongyrchol i ddysgwyr?

Byddwch, rhan graidd o rôl y Partneriaid Dysgu Creadigol fydd cyflwyno'n uniongyrchol i ddysgwyr. Dylid dyrannu o leiaf pum diwrnod ar gyfer hyn.

**Pwy sy'n pennu ffocws y dysgu?**
Bydd pob arbrawf yn cael ei arwain drwy ddull ymholiad. Dylai'r cwestiwn ymholiad gael ei lunio ar y cyd gan yr athro dosbarth, y Partner Dysgu Creadigol, a'r dysgwyr, gan dynnu ar flaenoriaethau datblygu'r ysgol.

**Sut fydda i’n cael fy nghefnogi gydol y rhaglen?**
Yn ogystal â derbyn hyfforddiant, bydd Partneriaid Dysgu Creadigol yn gweithio ar y cyd ag Arweinydd Prosiect. Bydd Arweinwyr Prosiect ar gael i gynnig cymorth, adborth, gwybodaeth a chyngor yn ôl yr angen.

**Sut mae rôl y Partner Dysgu Creadigol yn cymharu â bod yn Asiant Creadigol neu'n Ymarferydd Creadigol?**

Mae'r Partner Dysgu Creadigol yn defnyddio ac yn cyfuno sgiliau Asiantwyr ac Ymarferwyr Creadigol. Rhaid i Bartneriaid Dysgu Creadigol allu cyd-gynllunio ymholiad creadigol gyda'u hysgol a bod yn rhan o'i gyflwyno. O'r herwydd, bydd angen sgiliau rheoli prosiectau arnynt, yn ogystal â'r gallu i gyflwyno gweithgareddau Dysgu Creadigol wyneb yn wyneb.

*Noder nad oes angen i chi fod wedi gweithio ar y rhaglen Dysgu Creadigol o'r blaen i wneud cais am y rôl hon.

**A yw rôl y Partner Dysgu Creadigol a'r Ymarferydd Creadigol yr un peth?**
Na. Bydd cytundeb uniongyrchol rhwng y Partner Dysgu Creadigol â Chyngor Celfyddydau Cymru i weithio gydag ysgolion i gynllunio, cyflwyno a myfyrio ar eu Harbrofion.

Bydd Ymarferwyr Creadigol yn derbyn cytundebau uniongyrchol gan ysgolion i weithio ar eu Harbrofion gan ddefnyddio arian a ddarperir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

**A fydd cyfleoedd pellach i wneud cais i fod yn Bartner Dysgu Creadigol?**
Bydd, y bwriad yw recriwtio carfan bellach o Bartneriaid Dysgu Creadigol yn y flwyddyn academaidd nesaf.

**A allaf wneud cais i fod yn Bartner Dysgu Creadigol os ydw i'n gweithio ar Raglen Archwilio neu Raglen Arweinyddiaeth Greadigol Dysgu Creadigol Cymru?**
Gallwch. Nid yw bod yn rhan o’r rhaglen Archwilio na'r Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol yn eich cyfyngu rhag gwneud cais i fod yn Bartner Dysgu Creadigol.

**Pwy ddylwn i gysylltu ag ef os oes gen i ymholiadau neu gwestiynau pellach?**
Anfonwch e-bost at Huw Evans (huw.evans@celf.cymru) neu Daniel Trivedy (daniel.trivedy@celf.cymru)

Sut ydw i'n gwneud cais?

Dylai pob ymgeisydd lenwi ffurflen gais Partner Dysgu Creadigol. Yn ogystal, dylai ymgeiswyr lenwi Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal - bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei phrosesu gyda'ch cais.

Rydym yn rhagweld y bydd y cyfle hwn yn gystadleuol iawn. Cofiwch gyfeirio at y manyleb person wrth ateb y cwestiynau. Nid oes angen CV arnom.

Dyddiadau allweddol

| | |
|---|---|
| Galwad am Bartneriaid Dysgu Creadigol yn agor | 18 Awst 2025 |
| Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau | 26 Medi 2025 |
| Gwahodd Partneriaid Dysgwyr Creadigol Posib i hyfforddiant | Wythnos y 13 Hydref 2025 |
| Hyfforddiant deuddydd ar gyfer Partneriaid Dysgu Creadigol (Gogledd Cymru) | 10 & 11 Tachwedd 2025* |
| Hyfforddiant deuddydd ar gyfer Partneriaid Dysgu Creadigol (Canolbarth/Gorllewin Cymru) | 17 & 18 Tachwedd 2025* |
| Hyfforddiant deuddydd ar gyfer Partneriaid Dysgu Creadigol (De Cymru) | 24 & 25 Tachwedd 2025* |
| Paru Partneriaid Dysgu Creadigol gydag ysgolion | Wythnos y 1 Rhagfyr 2025 |
| Cyhoeddi cytundebau a gwiriadau DBS | Wythnos y 1 Rhagfyr 2025 |
| Ffenestr gynllunio | Ionawr 2026 – Mawrth 2026 |
| Ffenestr weithredu | Chwefror 2026 – Mehefin 2026 |

* Rhaid i bob ymgeisydd fod ar gael ar gyfer y deuddydd o hyfforddiant. Peidiwch â gwneud cais os nad ydych ar gael i fynychu'r ddau ddiwrnod o hyfforddiant yn eich lleoliad dewisol.

## Manyleb Person – Partner Dysgu Creadigol

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Gwybodaeth | • Cyd-destun o’r byd addysg yng Nghymru a'r heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu<br>• Cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru<br>• Creadigrwydd, y broses greadigol, a Dysgu Creadigol<br>• Y berthynas rhwng eu harfer creadigol eu hunain a chreadigrwydd pobl eraill | • Cynllunio cwricwlwm ac anghenion ysgolion<br>• Dysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn<br>• Dysgu Creadigol a'i le yng nghyd-destun addysg gyfoes<br>• Llythrennedd |
| Sgiliau | • Rheoli prosiectau a gweithio i derfynau amser<br>• Y gallu i ddod o hyd i amrywiaeth o bartneriaid a chyd-weithio gyda nhw<br>• Y gallu i weithio yn rhyngbersonol a mewn partneriaeth ag eraill<br>• Y gallu i lunio rhaglenni gweithgaredd gyda chydweithwyr sy'n bodloni blaenoriaethau datblygu ysgolion a'u dysgwyr<br>• Datrys problemau a goresgyn rhwystrau<br>• Ymarfer creadigol byw<br>• Rheoli cyllidebau<br>• Eiriolaeth | • Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Asesiad risg o weithgareddau dysgu |

| | | |
|---|---|---|
| Profiad | • Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion<br>• Gweithio gydag athrawon a dysgwyr fel partneriaid cyfartal<br>• Cynnal prosiectau mewn ysgolion<br>• Cyflwyno gweithdai creadigol i ddysgwyr<br>• Profiad o werthuso ac ymarfer myfyriol | • Cynnal sesiynau Datblygiad Proffesiynol ar gyfer ysgolion/athrawon<br>• Meithrin perthnasoedd hirdymor a chynaliadwy gydag unigolion a sefydliadau |
| Meddylfryd | • Ymrwymiad i weledigaeth Dysgu Creadigol Cymru<br>• Llysgennad dros arloesi addysgu<br>• Gosod esiampl dda i ddysgwyr | |